Hawdd ei Ddeall

CYMRU YNG NGHAEREDIN
WALES IN EDINBURGH

# Gŵyl Ymylol Caeredin

## Arian i bobl a sefydliadau creadigol yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymru Yng Nghaeredin Wales in Edinburgh**'.

**Ionawr 2024**

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 24**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

**Ebost:** grants@arts.wales

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys

Tudalen


Cyflwyniad....................................................................4

Pwy sydd yn gallu gwneud cais............................................6

Pryd i wneud cais..........................................................10

Sut i wneud cais............................................................11

Sut rydyn ni'n penderfynu...............................................19

Mwy o help..................................................................21

Geiriau anodd................................................................24

# Cyflwyniad

Ni ydy **Cyngor Celfyddydau Cymru**.



Rydyn ni eisiau helpu pobl **greadigol** yng Nghymru i berfformio yng **Ngŵyl Ymylol Caeredin 2024**.

Mae **pobl greadigol** yn gwneud pethau. Er enghraifft, perfformiwr sy'n ysgrifennu drama.



**Gŵyl Ymylol Caeredin** ydy gŵyl gelfyddydol fwyaf y byd.



Mae perfformio yn yr ŵyl yma yn gallu helpu pobl **greadigol** a'u gwneud yn fwy adnabyddus mewn gwledydd eraill.




Mae **rhaglen Cymru yng Nghaeredin** yn gronfa ar gyfer **pobl greadigol** a sefydliadau celfyddydau perfformio sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Rydyn ni yn gweithio gyda **Celfyddydau Rhyngwladol Cymru** i roi arian i helpu pobl sydd eisiau perfformio yn yr ŵyl yma.



Nod **rhaglen Cymru yng Nghaeredin** ydy hyrwyddo theatr, dawns, cerddoriaeth a syrcas Gymreig o safon uchel.




Fe fydd y ddogfen yma yn dweud mwy wrthych chi am yr arian yma. A sut rydych chi'n gallu gwneud cais amdano.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae cwmnïau celfyddydau perfformio a **phobl greadigol** yn gallu gwneud cais am yr arian yma.



Mae'n rhaid i chi fod yng Nghymru. Neu yn gwneud llawer o waith yng Nghymru.



Mae'n rhaid eich bod chi wedi gwneud perfformiadau o safon uchel o'r blaen.



Rhaid i chi fod yn barod i wneud mwy o berfformiadau. Yng Nghymru ac mewn mannau eraill.



Ddylech chi ddim fod mewn dyled i ni am unrhyw arian o brosiectau eraill.

# Rheolau i gwmnïau celfyddydau perfformio




Rhaid i chi gael **Polisi Cyfle Cyfartal** cyfredol a chyfreithiol. Mae hyn yn meddwl rheolau am sut i drin pobl yn gyfartal ac yn deg.




Mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc yn enw'ch cwmni. Rhaid i o leiaf dau berson allu defnyddio'r cyfrif banc yma. I gael gwybod mwy am gyfrifon banc, cliciwch yma.



Os ydych chi'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu **oedolion bregus**, rhaid bod gennych chi **Bolisi Diogelu**. Neu **Bolisi Amddiffyn Plant**.



Rheolau ydy'r rhain i gadw oedolion a phlant yn ddiogel. Rhaid iddyn nhw fod yn gyfoes ac yn gyfreithlon.



Mae **oedolion bregus** yn meddwl pobl sydd efallai angen mwy o gymorth i gadw'n ddiogel.



Cyn i chi wneud cais, rhaid i chi ddangos i ni eich bod yn bodloni ein holl reolau.

## Rheolau ar gyfer unigolion creadigol




Rhaid i chi fod dros 18 oed.



Mae’n rhaid i chi ddangos i ni eich bod yn deall **cyfleoedd cyfartal** ac yn meddwl am hyn yn eich gwaith.



Mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg.




Mae'n rhaid i chi gael cyfrif banc yn eich enw cyfreithiol. I ddarganfod mwy am gyfrifon banc, [cliciwch yma](#).



Os ydych chi'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu **oedolion bregus**, rhaid i chi weithio gyda **phartner diogelu**. Rhaid i'r partner yma gael rheolau diogelu priodol ar waith.



Mae **partneriaid diogelu** yn helpu i reoli materion am gadw pobl yn ddiogel. Er enghraifft, y cyngor, y gwasanaethau iechyd neu'r heddlu.



Cyn i chi wneud cais, rhaid i chi ddangos i ni eich bod yn bodloni ein holl reolau.

# Pryd i wneud cais



Mae’n rhaid i chi wneud cais cyn **5pm** ar **14 Chwefror 2024**.




Fe fyddwn ni yn gwneud penderfyniad erbyn **20 Mawrth 2024**.

# Sut i wneud cais




Llenwch y ffurflen gais o'r enw **Cymru yng Nghaeredin 2024**. Mae hyn ar ein gwefan ar-lein.




Mae angen i chi gofrestru cyn i chi allu defnyddio'r porth ar-lein. Ond os ydych chi wedi cofrestru o'r blaen, does dim angen i chi wneud hyn eto.



I ddarganfod mwy am y porth ar-lein cliciwch yma.



Os ydych chi angen help gyda'ch cais, neu os oes gennych chi **anghenion mynediad**, anfonwch e-bost i ni: grants@arts.wales

Mae **mynediad** yn meddwl gallu mynd i unrhyw le. Neu'n gallu defnyddio rhywbeth. Er enghraifft, mae Hawdd ei Ddeall yn wybodaeth hygyrch.

Fe fydd angen i chi lwytho'r wybodaeth yma:




## 1. Cynnig eich prosiect

Mae **cynnig eich prosiect** yn dweud wrthyn ni beth ydy pwrpas eich prosiect. Pam ei fod yn syniad da.

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni am:

- eich gwaith blaenorol.
- eich gwaith sy'n barod ar gyfer yr ŵyl.
- sut y bydd eich gwaith yn cyrraedd llawer o bobl?
- sut y byddwch yn gweithio gyda phartneriaid eraill i hyrwyddo'ch gwaith.
- pa leoliadau y byddwch chi yn eu defnyddio

Rydych chi'n gallu rhoi **cynnig eich prosiect** i ni mewn dwy ffordd:




- Ysgrifennu ef i lawr

Neu




- Gwneud recordiad – fel ffeil sain neu fideo

**Cynnig prosiect ysgrifenedig**




- Fe ddylech chi wneud hyn drwy ddefnyddio ffeil Word neu ffeil PDF.



- Ni ddylai fod yn hirach na 5 ochr papur A4.




- Fe ddylai'r testun fod yn faint 12 pwynt neu'n fwy.



- Ni ddylai maint y ffeil fod yn fwy na 250 MB.


## Cynnig prosiect sain neu fideo



- Ni ddylai fod yn hirach na 4 munud.




- Anfonwch ef i ni fel dolenni i'ch gwefan. Neu YouTube neu Vimeo.



- Fe ddylech chi wneud yn siŵr ein bod ni yn gallu agor y ffeil.

## 2. Eich cyllideb



Fe ddylai eich cyllideb ddweud wrthyn ni am gostau'ch prosiect. Sut y byddwch chi'n defnyddio'r arian rydyn ni'n ei roi i chi.

## 3. Llythyrau



Rydyn ni angen 2 lythyr gan bobl sy'n credu bod eich prosiect yn syniad da. Rydych chi'n gallu rhoi mwy o lythyrau i ni os ydych chi eisiau.



Pan fyddwn ni yn derbyn eich cais, fe fyddwn ni yn anfon e-bost i chi i roi gwybod i chi.



Os ydyn ni yn penderfynu rhoi arian i chi, fe fyddwn ni yn anfon **Ffurflen Derbyn Gwobr** i chi. Llenwch y ffurflen a'i hanfon yn ôl i ni.



Pan fyddwn ni wedi cael eich **Ffurflen Derbyn Gwobr**, fe fyddwn ni yn anfon y rhan fwyaf o'r arian i chi.



Fe fyddwn ni yn anfon gweddill yr arian i chi ar ddiwedd eich prosiect.



Os ydyn ni’n penderyfnu peidio â rhoi unrhyw arian i chi, fe fyddwn ni yn dweud pam wrthych chi.




Fe fyddwn ni yn penderfynu pwy rydyn ni’n gallu rhoi arian iddyn nhw erbyn **20 Mawrth 2024**.

# Cwestiynau y byddwn yn eu gofyn i chi





**Rydyn ni eisiau gwybod:**

Amdanoch chi. A sut rydych chi'n ateb ein rheolau ar gyfer cael yr arian yma.




Eich gwybodaeth gyswllt.




Gwybodaeth am eich prosiect. Fel eich cynnig prosiect a'ch cyllideb.

Mwy o wybodaeth am eich prosiect. Fel:




- Y mathau o gelfyddydau a gweithgareddau y byddwch yn eu gwneud.
- Faint o berfformiadau fyddwch chi'n eu rhedeg.
- Pa leoliadau fyddwch chi'n eu defnyddio.




Os bydd eich prosiect yn dda i'r iaith Gymraeg.



Sut rydych chi'n edrych ar **gydraddoldeb** yn eich gwaith.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg.

**Cyflwyno eich cais**



Cyn i chi gyflwyno'ch cais, fe ddylech chi edrych drosto.




Fe ddylech chi wneud yn siŵr eich bod wedi rhoi'r holl wybodaeth rydyn ni ei angen. Ac wedi llwytho'r holl ddogfennau rydyn ni wedi gofyn amdanyn nhw.



Pan fyddwch chi yn barod i gyflwyno'ch cais, cliciwch **nesaf**. Unwaith y byddwch yn clicio **nesaf**, dydych chi ddim yn gallu newid unrhyw beth.

# Sut rydyn ni'n penderfynu




Mae gennym ni reolau i'n helpu ni i benderfynu i bwy i roi arian.




Fe fyddwn ni yn meddwl am ein **6 blaenoriaeth** fel maen nhw wedi cael eu hysgrifennu yn yr Adolygiad Buddsoddi: Creadigrwydd, Ehangu Ymgysylltu, y Gymraeg, Cyfiawnder Hinsawdd, Meithrin Talent, a Thrawsnewid.



Rydyn ni yn ceisio bod mor deg â phosibl.



Mae gennym ni  80,000 o bunnoedd ar gyfer y prosiect yma.



Mae hyn yn meddwl mai dim ond 4 neu 5 o gwmnïau neu unigolion rydyn ni yn gallu eu helpu.



Dydyn ni ddim yn gallu talu am eich prosiect cyfan. Dim ond rhan o’r prosiect.  Fe ddylech chi feddwl o ble arall rydych chi’n gallu cael arian.



Fe fyddai’r gronfa’n talu am bethau fel llogi lleoliadau, llogi offer, marchnata, ffioedd perfformiad, llogi ystafelloedd.

**Fe ddylech chi:**



- Cael rhesymau da pam eich bod chi eisiau perfformio yn yr ŵyl yma.



- Dweud wrthyn ni am wledydd eraill rydych chi eisiau perfformio ynddyn nhw. A pham.



- Dangos i ni eich bod yn dda am redeg prosiectau fel hyn. Ac rydych chi wedi meddwl popeth drwyddo.



- Gwneud yn siŵr y bydd eich prosiect o fudd i'r cyhoedd. Yng Nghymru ac mewn mannau eraill.





- Wedi cyfrifo holl gostau eich prosiect. O ble'r ydych chi'n cael arian.



- Dweud wrthyn ni sut y byddwch yn diogelu'r **amgylchedd** yn ystod eich prosiect.

Yr **amgylchedd** ydy lle rydyn ni yn byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.



Dydyn ni ddim eisiau i brosiectau pobl wneud niwed i'r **amgylchedd**.

# Mwy o help



Os ydych chi eisiau cyngor am ysgrifennu eich cynnig, cysylltwch â maggie.dunning@arts.wales.



Os ydych chi angen help gyda'ch cais, neu drwy ddefnyddio'r porth ar-lein, cysylltwch â: grants@arts.wales.

## Ffyrdd o gysylltu â ni:



**E-bost**: grants@arts.cymru



**Ffôn:** 03301 242733

9.00am to 5.00pm Llun i Iau

9.00am to 4.30pm Gwener

Mae cost pob galwad ar gyfraddau lleol

**Twitter:** @Arts_Wales_




**Gwefan:** https://arts.wales/cy



Mae rhagor o wybodaeth am sut i gysylltu â ni ar gael yma.

# Geiriau Anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd ydy lle rydyn ni yn byw. Mae'n meddwl y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw ynddo ac arno. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid a physgod.

## Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg.

## Mynediad

Mae hyn yn meddwl gallu cyrraedd unrhyw le. Neu'n gallu defnyddio rhywbeth. Er enghraifft, mae Hawdd ei Ddeall yn wybodaeth hygyrch.

## Oedolion Bregus

Mae oedolion bregus yn meddwl pobl sydd efallai angen mwy o gymorth.

## Pobl greadigol

Mae pobl greadigol yn gwneud pethau. Er enghraifft, perfformiwr sy'n ysgrifennu drama.

## Partneriaid Diogelu

Mae partneriaid diogelu yn helpu i reoli materion am gadw pobl yn ddiogel. Er enghraifft, y cyngor, y gwasanaethau iechyd neu'r heddlu.